

Galw am gymod yn y Dwyrain Canol

Ddiwedd mis Gorffennaf, rhyddhawyd datganiad yn enw prif bwyllgor Bedyddwyr Prydain, Pwyllgor Canolog y Gymdeithas Genhadol Fedyddiedig (BUGB), ac Undeb Bedyddwyr Cymru yn cadarnhau eu cefnogaeth i ddatganiad yn enw Cynghrair Bedyddwyr y Byd yn galw ar ddiwedd i'r rhyfel rhwng llywodraeth Israel a'r Palestinaid sy'n dioddef yn Gaza a'r Llain Orllewinol.

Mae'r datganiad yn cydnabod erchylltra'r ymosodiad ar 7 Hydref 2023, ond hefyd yn derbyn bod y digwyddiad arswydus hwnnw yn perthyn i gyfnod o hanes treisgar rhwng Israel a mudiad Hamas yn y rhanbarth. Mae'r Bedyddwyr ym Mhrydain am uniaethu eu hunain â Chyngor Eglwysy'r Byd drwy 'ymwrthod â phob math o hiliaeth, sy'n cynnwys gwrth-Semitiaeth, hiliaeth gwrth-Arabaidd ac Islamoffobia'.

Yn yr un modd condemnir ymosodiad Hamas yn Israel ar 7 Hydref 2023. Nid oes unrhyw fodd o gyfiawnhau lladd, niweidio neu herwgipio pobl ddiniwed. Condemnir hefyd y modd y bu i'r rhai a herwgipiwyd gael eu trin yn Gaza.

Yn y datganiad condemniodd Bedyddwyr Prydain farbareiddwch y modd y mae byddin Israel wedi cynyddu'r dioddefaint ymhlith trigolion Gaza drwy fomio a chwalu adeiladau megis ysbytai, ysgolion, eglwysi a chlinigau, gan achosi trychineb sydd y tu hwnt i eiriau. Maent wedi gorfodi'r trigolion i symud o un ardal o Gaza i'r nesaf, gan greu sefyllfaoedd lle mae'n amhosibl darparu gwasanaethau dyngarol ar gyfer y bobl hyn. Gelwir ar bob llywodraeth sydd â dylanwad i hyrwyddo dod â'r uffern hon i ben.

Mae'r datganiad yn cloi drwy alw am gadoediad o'r ddeutu yn Israel a Gaza; rhyddhau'r holl wystlon yn ddiogel; sicrhau modd i'r cyrff dyngarol gael mynediad dilyffethair i Gaza gyfan a threfnu bod dŵr, bwyd, meddyginiaethau a thrydan ar gael ar unwaith.

Gelwir am gadarnhad fod modd i'r Palestinaid a'r Iddewon gyd-fyw mewn heddwch a diogelwch, a bod yr egwyddorion sylfaenol hyn yn cael eu cydnabod mewn deddfwriaeth ryngwladol. Gelwir am atal y tirfeddiannu a'r anheddu ar unwaith, gan gydnabod yr apartheid sylfaenol hwn a bod angen i'r Llys Cyfiawnder Rhyngwladol gynnal ymchwiliadau annibynnol fel bod pob trosedd yn erbyn y ddynoliaeth yn cael ei chosbi.

Yn nau gymal olaf y datganiad, tanlinellir yr hawl i ddilynwyr pob crefydd i ymarfer eu ffydd yn ddilyffethair, a bod llywodraeth Prydain yn atal gwerthu arfau i Israel nes bod prawf digamsyniol na fydd yr arfau hynny'n cael eu defnyddio i darfu ar y gyfraith ryngwladol ddyngarol.

Gelwir hefyd ar yr Eglwysi Bedyddiedig i wneud y canlynol:

bod yn effro i riddfan yr holl ddioddefwyr (Llyfr y Pregethwr 4:1, Diarhebion 21:13)

sefyll yn erbyn gwrth-Semitiaeth ac Islamoffobia (Mathew 22:37-9, Rhufeiniaid 12:18)

gweddïo dros heddwch (Mathew 5:9, 1 Timotheus 2:1-2)

ysgrifennu at Aelodau Seneddol yn galw am gyfiawnder i'r gorthrymedig

cynnig pob cefnogaeth ymarferol bosibl (Mathew 25:40-45).

Bellach mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ailfeddwl ynghylch ei hymateb i'r drychineb yn Gaza. Mae wedi datgan y bydd yn dilyn Ffrainc ac yn cydnabod statws swyddogol y Palestinaid fel gwladwriaeth annibynnol, oni bai fod Israel yn dod â'i bomio i ben ac yn caniatáu mynediad i gymorth dyngarol ar fyrder.

Datganodd Mr Netanyahu na fyddai hynny'n digwydd ac mai gwobrwyo terfysgaeth a wna Prydain wrth newid

ei pholisïau parthed Gaza. Mae'n bwysig fod pob Aelod Seneddol yn San Steffan yn derbyn gohebiaeth yn ystod mis Awst yn datgan cefnogaeth i'r cam newydd hwn yng nghyfeiriad y Prif Weinidog; byddai llaw llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gryfach o'r herwydd.

Carem gymell ein bod fel unigolion ac fel eglwysi yn anfon ebost/llythyr at ein Haelodau Seneddol yn fuan, fel bod llais Cristnogion gwledydd Prydain yn cael ei glywed yn gryf o blaid heddwch a chymod yn y Dwyrain Canol.

Mae'n siŵr y byddai llawer ohonom am weld y Palestinaid yn cael eu cydnabod yn genedl, beth bynnag a wna Israel, ond, heb os, mae cynllun y Prif Weinidog yn gam radical o'i safbwynt hyd yn hyn. Boed yn shalom go iawn.

Denzil I. John

Datganiad gan Cytûn



Archegob-etholedig Cherry Vann, Esgob Mynwy

Rydym yn diolch ac yn llawenhaus heddiw gan fod y Coleg Etholiadol wedi ethol y Gwir Barchedig Cherry Vann, Esgob Mynwy, yn 15fed Archegob Cymru.

Gyda'i phrofiad esgobaethol cyfoethog a'i hymrwymiad dwfn i gymod, gadewch inni gynnal yr Archegob-etholedig Cherry mewn gweddi wrth iddi baratoi i ymgymryd â'r weinidogaeth hanesyddol hon. Boed iddi gael ei chynnal gan ddoethineb, trugaredd a gras Duw yn yr eiliad allweddol hon i'r Eglwys yng Nghymru.

Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda'r Archegob-etholedig, ac at weld ei chyfraniad i fywyd eciwmeniaeth yng Nghymru.

Lansio cyfrol Llwybr Cadfan

Nos Fercher, 23 Gorffennaf, cafwyd noson arbennig yn nhafarn y Plu, Llanystumdwy, i hyrwyddo Llwybr pererindod newydd sydd wedi ei greu gan Esgobaeth Bangor, yn dilyn ôl traed Cadfan Sant, ac i lansio cyfrol sy'n gydymaith i'r daith.

Wrth wahodd eraill i ymuno yn y bererindod, dywed Esgobaeth Bangor:

Taith yw pererindod – ar hyd llwybr, fel arfer i le sanctaidd. Mae'n gyfle i gamu allan o rythm bywyd bob dydd, i gyfuno cerdded â darganfod lleoedd newydd a chwrdd â phobl newydd, ac i fwynhau eiliadau o fyfyrddod a hunanddarganfod. Dilynwyd ôl traed Cadfan Sant o'r 6ed ganrif ar hyd Llwybr Cadfan, taith bererindod 12-diwrnod. Dechreuwyd yn nhref arfordirol Tywyn a chrwydrwyd lwybr 128 milltir yr holl ffordd i Ynys Enlli, 'ynys yr ugain mil o saint' sy'n parhau i fod yn bwysig i Gristnogion.

Ar hyd y daith, fe welwyd eglwysi anghysbell, fe gewch deithio ar hyd arfordir creigiog a dramatig, a phrofi harddwch tawel y mannau sanctaidd.

Mae'r daith hon yn rhan o broiect Pererin sy'n cael ei gydlynw gan Elin Owen ar ran yr Esgobaeth. Wrth holi Elin am y cynllun, dywedodd

Mi ddechreuodd Sant Cadfan ei weinidogaeth yn Nhywyn yn y 6ed ganrif a gorffen ei daith ar Enlli, lle y daeth yn abad cyntaf yr ynys.

Mae'r gwaith o adfer y llwybr cerdded sy'n dilyn y daith hanesyddol hon bellach wedi ei gwblhau. 'Pererin' ydi enw'r prosiect yma sydd yn rhan o waith Esgobaeth Bangor. Y bwriad ydi rhoi sylw i'r llwybr fel y bydd yn llwybr pererindod o bwys yng Nghymru.

Ond pam edrych ar bererindod? Yn ystod y degawdau diwethaf, mae sefydliadau seciwlar fel Cadw ac awdurdodau lleol wedi ceisio manteisio ar y cysylltiadau rhwng lleoedd sanctaidd, twristiaeth a'r economi leol, gan ddefnyddio'r safleoedd, ond efallai'n tueddu i hepgor y gogwydd Cristnogol i bererindod.

Mae Llwybr Cadfan yn cysylltu pymtheg o eglwysi hynafol. Mae'n cynnwys opsiynau am deithiau byr a hir, llefydd aros, cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus, map pwrpasol a chodau QR perthnasol.

Prosiect diweddar oedd cyhoeddi cyfrol yn cynnwys cerddi sy'n plethu i mewn i leoliadau ar hyd y daith. Roedd dau fardd preswyl, Siôn Aled a Sian Northey, yn rhan o'r cynllun, yn ogystal ag amryw o artistiaid gwadd. Cynhaliwyd 11 digwyddiad mewn lleoliadau ar hyd y llwybr, gan gynnwys Eglwys Sant Cadfan, Abaty Cymer, a hyd yn oed ar drên Rheilffordd Ffestiniog yn 'Cadfan ar y Cledrau'.

Ymhlith y perfformwyr yr oedd Manon Steffan Ros, Twm Morys, Gwyneth Glyn, y diweddar Dewi Pws ac eraill. Roedd hwn yn brosiect ar y cyd â Chyhoeddiadau'r Gair, a aeth ati i gyhoeddi'r gyfrol sy'n llawn cerddi newydd sbon a lluniau lliw hyfryd o olygfeydd ar hyd y daith. Dyma gyfrol hwylus i bob pererin sydd am gerdded y daith, neu am ei dilyn o bell mewn cadair gyfforddus o'ch cartref. Fel y dywedodd y bardd Sian Northey, 'Mae hwn wedi bod yn gasg eira o brosiect' – ac mae'r gyfrol newydd, sy'n casglu'r blogiau, cerddi, lluniau ac ysgrifau, yn goron ar y cyfan.



Dywedodd y Parch. Andrew John, esgob Bangor:

Fel Cristnogion yn Esgobaeth Bangor, gallwn olrhain ein hanes yn ôl i ddynion a menywod sanctaidd a sefydlodd gymunedau gweddi, tystio a gwasanaethu ledled yr esgobaeth mor gynnar â'r bumed ganrif. Mae'r seintiau Celtaidd cynnar hyn – Deiniol, Cybi, Seiriol, Dwynwen, Cadfan, a llawer o rai eraill

– yn parhau i gael eu coffáu yn enwau ein heglwysi, pentrefi a threfi.

Fil a hanner o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae un o nodweddion amlycaf dynolryw, sef yr ysfa i symud a chrwydro, yn parhau i gael ei ddathlu yma. Mae'r cysyniad o bererindod, a'i chysylltiadau â seintiau Celtaidd lleol, yn fyw hyd heddiw ymhlith ein cymunedau, ac mae prosiect llenyddol cwbl unigryw 'Llwybr Cadfan' wedi llwyddo

i roi egni newydd, barddonol ei naws iddo. Rwy'n mawr obeithio y byddwch yn mwynhau mynd ar y bererindod hon cymaint ag y gwnes i.'

Yn ystod y lansiad cafwyd cyfle i glywed nifer o'r beirdd yn darllen eu cerddi, cyn cloi ag eitemau arbennig gan Gwyneth Glyn a Twm Morys, a gyflwynodd eu heitemau yn Gymraeg ac yn y Llydaweg.

Mae'r gyfrol ar gael yn y siopau, pris £9.99.

Aled Davies

GRAS AR GYFER POB TYMOR

‘Gweinidogaethu ymhlith oedolion hŷn’

10YB - 4YP HYDREF 11^{EG} 2025

EGLWYS BRESBYTERAIDD

PARK END, CAERDYDD, CF23 6EG

I BOB OED!

Prif Siaradwyr

Tina English - Embracing Age - ‘Pam ddylai'r Eglwys fod yn le ardderchog i heneiddio.
Calon Duw dros y cenedlaethau hŷn.’

Parch John Trehame - ‘Annerch anghenion ffydd mewn oedolion hŷn, a'r heriau sy'n eu hwynebu.’
(Yn Gymraeg, a bydd cyfieithiad ar gael)

Seminarau

Dementia - Tina English, Embracing Age
Annog Ffydd: Gorffen yn Dda - yn y Gymraeg - Parch John Trehame
Ar Goll ac wedi'i Ddarganfod: Ail-ddychmygu Gweinidogaeth mewn Cartref Gofal - Karen Jennings, MHA
Annog Ffydd: Gorffen yn Dda - Parch Peter Milsom
Pasio'r Baton yn yr Eglwys - Parch Phil Jenkins

Cinio & lluniaeth
ysgafn am ddim
Archebwch ar-lein @

Eventbrite

Credo Nicea – Sesiwn Dau: Ymgnewdoliad Iesu Grist (rhan 1)

Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.

Y Caribî

Ysgrifennwyd gan y Parchg Thanduxolo Noketshe, offeiriad â gofal plwyfi St Mary a Christ Church, Archddiaconiaeth Ganolog Ynys Sant Kitts.

Mae'r Parchg Thanduxolo yn rhan o raglen Cyfnewid Lleoedd USPG (United Society Partners in the Gospel) a'i harweiniodd i ymgymryd â gweinidogaeth am gyfnod o bum mlynedd fel offeiriad mewn gofal yn St Mary a Christ Church, Esgobaeth Gogledd-ddwyrain y Caribî ac Aruba, Talaith India'r Gorllewin. Yn ei rôl mae ganddo drosolwg ar holl agweddau gweinidogaeth yr eglwys. Mae'n aelod o Gyngor Cyffuriau Sant Kitts a Nevis, fel cynrychiolydd y Cyngor Cristnogol. Fel un sy'n gweithredu dros yr amgylchedd, mae'n defnyddio cymeriad ac egwyddorion Iesu i drawsnewid y gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Eglwys Anglicanaidd Sant Kitts

Dwy genedl ar ddwy ynys ym Môr yr Iwerydd a Môr y Caribî yw Sant Kitts a Nevis. Dau blwyf gwledig ar ochr ddwyreiniol Ynys Sant Kitts yw St Mary a Christ Church. Mae gan eglwys St Mary gynulleidfa o 60–80 ac mae tua 40–50 yng nghynulleidfa Christ Church. Cristnogion sydd yn y mwyafrif ar y ddwy ynys. Ceir cymunedau Rasta yno hefyd, yn ogystal â chrefyddau eraill. Ar hyn o bryd, mae'r Eglwys yn datblygu rhaglenni sy'n medru cyrraedd grwpiau ieuencid a chanol oed er mwyn iddynt fedru cynnig eu talentau a'u doniau i gymunedau ac eglwysi.

Ymgnewdoliad Duw yn Iesu Grist

Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist, unig Fab Duw, a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,

Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch, gwir Dduw o wir Dduw, wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur, yn un hanfod â'r Tad,

a thrwyddo ef y gwnaed pob peth. Er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth disgynnodd o'r nefoedd; trwy nerth yr Ysbryd Glân daeth yn gnawd o Fair Forwyn, ac fe'i gwnaed yn ddyn.

Darlleniad o'r Beibl – Ioan 1:1–14

¹Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. ²Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. ³Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod. ⁴Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. ⁵Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.

⁶Daeth dyn wedi ei anfon oddi wrth Dduw, a'i enw Ioan. ⁷Daeth hwn yn dyst, i dystiolaethu am y goleuni, er mwyn i bawb ddod i gredu trwyddo. ⁸Nid ef oedd y goleuni, ond daeth i dystiolaethu am y goleuni. ⁹Yr oedd y gwir oleuni, sy'n goleuo pawb, eisoes yn dod i'r byd. ¹⁰Yr oedd yn y byd, a daeth y byd i fod trwyddo, ac nid adnabu'r byd mohono. ¹¹Daeth i'w gynefin ei hun, ac ni dderbyniodd ei bobl ei hun mohono. ¹²Ond cynifer ag a'i derbyniodd, rhoes iddynt hwy, y rhai sy'n credu yn ei enw, hawl i ddod yn blant Duw, ¹³plant wedi eu geni nid o waed nac o ewyllys cnawd nac o ewyllys gŵr, ond o Dduw.

¹⁴A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.

Myfyrdod

Athrawiaeth yr ymgnewdoliad yw un o sylfeini hanfodol ein ffydd. Fe ddaw oddi wrth y Cristnogion cynnar oedd â syniadau gwahanol am natur Iesu, y Crist, a'n perthynas ag ef (yn bersonol ac fel Eglwysi).

Yn Nicea tua 325 OC y bu i'r Ymerawdwr Cystennin gynnwll cyngor i ddatrys gwahaniaethau barn ac i gynghreirio â'r eglwys i gynnal yr ymerodraeth a'i diwinyddiaeth. Yr hyn na wyddai oedd y byddai'n esgor ar Gredo Nicea.

(I'w barhau)

radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
Sul, 10 Awst, am 7:30yb

a 4:30yp
Cymanfa Ganu Eisteddfod 2025: Rhan 1
Cymanfa Ganu Eisteddfod Genedlaethol
Wrecsam dan arweiniad Ann Atkinson
Oedfa Radio Cymru
Sul, 10 Awst, am 12:00yp
Oedfa dan ofal John Davies, Cadeirydd
Pwyllgor Gwaith, Eisteddfod y Garreg Las,
2026

YMUWCH CYDA NI AM STORI A HWYL

EIN STORI NESAF FYDD

NEWYDDION DA IESU

CROESO CYNNES I BAWB

SESIWN 43

ACTAU 1:1-14

www.ysgolsul.com

Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

Anerchiad y Llywydd, y Parch. Rob Nicholls, Undeb Bedyddwyr Cymru, Llundain, 20 Mehefin 2025 (parhad)

2 Ffydd fel tarian yn ein profiad ni

Ac yn ail, i atgyfnerthu hyn yn ein profiad ni: 'heblaw hyn oll, ymarfogwch â tharian ffydd'.

Nid ydych i anwybyddu ac anghofio am agweddau eraill o'ch bywyd ysbrydol, ond mae'n rhaid sicrhau bod eich ffydd yn iach – eich bod yn iach yn y ffydd.

Mae'r hen gyfieithiad yn cyfeirio at 'holl bicellau tanllyd y fall' (*to quench all the fiery darts of the wicked*, yn y Saesneg). Ac mae hyn yn cyfeirio at saethau bychain â gwenwyn ar flaen y bicell neu'r saeth. Wrth iddyn nhw gyffwrdd â'r cnawd byddant yn chwistrellu gwenwyn tanllyd i mewn i'r gwythiennau. Weithiau, byddant yn defnyddio saethau wedi'u tanio â fflamau. (Rwy'n siŵr eich bod chi i gyd yn gyfarwydd â gweld golygfeydd tebyg mewn ffilmiau o saethau tanllyd yn hedfan drwy'r awyr i ddinistrio pebyll a gwersylloedd y gelynyon.)

Ydy hynny'n yn eich atgoffa o ryw beth, o saethau tanllyd eraill sy'n hedfan drwy'r awyr wrth i ni gyfarfod yma heno? Y drôns a'r taflegrau dieflig yn hedfan drwy'r awyr yn Gaza ac Israel, yn Wcrain a Rwsia, uwchben Tehran a Tel Aviv. Does dim byd newydd dan yr haul!

Ond, mae gan ffydd bŵer diffoddol hefyd. Mae ffydd nid yn unig yn dal y bicell, nid yn unig yn ei derbyn, ond yn sugno'r gwenwyn i ffwrdd ac yn gallu diffodd y tân! 'Fe sugna f'enaidd innau'n lân'

Mae'n rhyfedd sut mae Duw ar brydiau'n ein galluogi i fyw ynghanol temtasiynau, treialon, gofidiau a chwestiynau o bob math, a ninnau, â tharian ffydd, yn cael nerth o rywle ac yn llwyddo i gario 'mlaen.

Peth arall sy'n cael ei atgyfnerthu yma yw'r ffaith fod ffydd, o'i chymharu â'r arfwisgoedd eraill, yn gallu diffodd yr 'holl' saethau. Mae'r helm yn amddiffyn y pen yn unig, yr esgidiau yn diogelu'r traed yn unig, ond am darian ffydd – mae honno yn eich amddiffyn rhag yr 'holl' saethau.

Mynnwch y rhinweddau eraill, wrth reswm, ond 'Heblaw hyn oll,' meddai Paul, 'ymarfogwch â tharian ffydd'. Dyma'r 'eli i bob clwyf', ys dywed yr hen ddywediad.

Does dim un elfen o'ch byw a'ch bod nad yw ffydd yn ddefnyddiol i chi. Beth bynnag a anghofir gennych ar brydiau, peidiwch fyth ag anghofio am wisgo tarian ffydd amdanoch.

Ac eto, cawn ein darbwylllo i gymryd tarian ffydd am fod ffydd yn ein gwaredu rhag pob math o elynion, hynny yw, yr holl ddrygioni sydd i'w gael yn y byd. Nid yn unig o fewn eraill, ond y drygioni sy'n rhan annatod ohonom ni i gyd, ym mēr ein hesgyrn ac yn rhan o'n natur ddynol ni i gyd: ein hunanoldeb, ein trachwant, ein balchder, a'n hamheuron ar brydiau.

Er, mae'n ymddangos i mi fod ambell un y dyddiau 'ma, hyd yn oed o fewn eglwys Dduw, yn annog derbyn 'amheuaeth' fel rhyw fath o ddyletswydd!

Peidiwch â'm camddeall, dwi ddim yn honni nad oes adegau o amheuron a chwestiynu yn dod i gwrdd â ni i gyd, ond yn fy myw, mae'n rhaid i mi bregethu ffydd derfynol yn Iesu Grist!

Hynny yw, peidiwch â byw mewn cyflwr *parhaus* o anghrediniaeth! Peidiwch â byw mewn cyflwr *parhaus* o amau a chwestiynu bwriad a phwrpas Duw ar eich cyfer!

Gweddïwch ar Dduw nes eich bod yn gallu datgan yn hyderus, 'Mi wn fod fy Mhrynwyr yn fyw, ac a saif yn y diwedd ar y ddaear. Ac er, ar ôl fy nghroen i bryfed ddifetha y corff hwn, eto, caf weled Duw yn fy nghnawd.'

3 Gair o gysur

Felly, at y drydedd ran, a'r rhan olaf o'r anerchiad: gair o gysur i ni i gyd wrth geisio defnyddio a phwyso ar ein ffydd yn y frwydr barhaus hon i 'ddiffodd holl saethau tanllyd yr Un drwg'. Achos does dim byd sy'n gallu dwyn llawenydd, bodlondeb a thangnefedd mewnol yn debygi i ffydd. O, na fyddem yn defnyddio ac yn dibynnu ar 'darian ffydd' yn fwy aml!

Ym myd natur ceir y dywediad, 'Nature abhors a vacuum'. Mae'n golygu bod unrhyw ofod gwag a segur yn cael ei lenwi. A'r cyfan sydd ei angen ar Dduw mewn gwirionedd yw *vacuum*, ac mae'r *vacuum* yna i'w gael ynoch chi a mi.

Dyw hi ddim yn anodd bod yn wag, cael eich gwacáu o'ch nerth a'ch ysbryd a chael dim byd tu mewn i chi, ar lawr yn ysbrydol, yn gorfforol ac yn emosiynol. Ac yn y cyflwr truenus hwnnw, fel y darllenwn yn Salm 107, 'Efe a ddiwalla yr enaid sychedig, ac a leinw yr enaid newynog.' Y cyfan sydd ei angen yw ar i chi fod yn wag ynoch eich hunan, wedi cyrraedd y gwaelodion – dyw hynny ddim yn waith anodd chwaith!

Nid i sefyll o'i flaen, nid i eistedd, nid i benlinio hyd yn oed, ond i orwedd wrth ei draed, gan daflu eich hunan ar ei



Rob Nicholls yn arwyddo Beibl y Llywydd yng nghwmni Judith Morris

drugaredd a'i faddeuant. A phan fo Duw yn gweld enaid ar lawr, wedi'i wasgu i'r llwch, yna mae'n barod ac yn awyddus i lenwi'r gwacter â'i bresenoldeb dwyfol Ef ei hun.

Fe ddechreuais yr anerchiad hwn wrth sôn am filwyr Rhufeinig, a dyna oedd y ddelwedd, am wn i, ym meddwl Paul wrth ysgrifennu'r geiriau yma at yr Effesiaid.

Roedd gan y Rhufeiniaid ddull arbennig iawn o ddefnyddio'u tarianau, sef ar ffurf *testudo* – y 'tortoise formation', ffurf y crwbau. Byddai'r milwyr yn gosod eu tarianau i ffurfio gorchudd o'u cwmipas o bob cyfeiriad a phob ochor, a'r rhai yn y canol yn rhoi eu tarianau uwch eu pennau i amddiffyn o'r top, a'r rhai yn y cefn yn cerdded tua'n ôl i amddiffyn o'r tu ôl.

Fel hyn mae'r weithred yn cael ei nodi mewn un disgrifiad: 'this reduced the speed and mobility of the formation, but offered consistent defensive strength against opposing infantry, and excellent protection against arrows and other missile attacks'.

Ie, yn erbyn holl saethau tanllyd yr un drwg.

Ac yn ysbrydol, dim ond gyda tharian ffydd o'ch blaen, y tu ôl i chi, uwch eich pen ac o dan eich traed hefyd y mae modd i chi weithio eich ffordd yn fuddugoliaethus drwy holl ddryswch ac ansicrwydd mawr y byd a'r bywyd hwn, a chyrraedd yn ddiogel yr ochor draw.

Â'm hyder bob tro ynddo ef
ymlaen af i'r frwydyr mewn ffydd,
ymlaen, â gobeithgan y nef
i'r daith yn gyfeiliant bob dydd;
fy Nuw yw fy Llywydd drwy f'oes,
a dwyn ei gomisiwn yw 'mr maint,
gan ddathlu gwaradwydd ei groes
yn sêl buddugoliaeth ei saint.
(Edward Turney, 1816–72; efel. Siôn Aled)

Er gogoniant i'w Enw. Amen.

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru